Papur y Bwrdd

3 Ebrill 2014

Teitl y Papur	**Diweddariad ar Sefyllfa Ariannol 2013-14**
Cyfeirnod y Papur:	**NRW B O 22.14**
Paratowyd y Papur gan:	Rob Bell ac Andrea Morgan

Pwrpas y Papur:	Cyflwyno diweddariad i'r Bwrdd ar y sefyllfa ariannol am 2013-14.
Argymhelliad:	Nodi cynnwys y papur.
Angen Penderfyniad:	Amherthnasol

Effaith: Dylid nodi – mae'n bosib nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc.	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Bydd defnydd effeithiol o'n hincwm yn sicrhau bod adnoddau prin yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau y rhoddwyd blaenoriaeth iddynt. **Effaith ar yr Economi**: Mae defnydd effeithiol o'n hadnoddau'n sicrhau ein bod yn dangos gwerth am arian i gwsmeriaid sy'n talu am ein gwasanaeth. **Effaith ar Gymuned**: Mae defnydd effeithiol o'n hadnoddau'n sicrhau ein bod yn cynyddu'r buddiannau i gymunedau. **Effaith ar Wybodaeth**: Amherthnasol

Mater

1. Cyflwyno diweddariad i'r Bwrdd ar berfformiad ariannol hyd ddiwedd Ionawr 2014.

Crynodeb

2. Rydym wedi mabwysiadu nifer o fesurau yn ystod y flwyddyn ariannol hon i reoli ein sefyllfa ariannol diwedd blwyddyn. O ganlyniad rydym wedi rheoli'r sefyllfa honno i sicrhau gwarged o £1m.

Cefndir

3. Yn y cyfarfod diwethaf dywedwyd fod y diffyg yn y gyllideb yn £0.8m.

4. Ers y cyfarfod diwethaf rydym wedi canfod nifer o gamau i leihau'r diffyg, i ofalu am bwysau yn 2013-14 ac i ganfod arbedion i gario cyllid ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

   - Comisiynwyd ymarferiad gennym i ganfod gostyngiadau ac arbedion pellach yng nghyllidebau Cyfarwyddiaethau; roedd yr ymarferiad hwn yn llwyddiannus iawn a chanfuwyd arbedion gwerth £3m.

   - Rydym wedi dyrannu £1.2m i dalu am fuddsoddiad pellach mewn gwaith gweddnewid yn y flwyddyn ariannol hon.

5. Effaith net y newidiadau hyn eleni yw bod gennym yn awr warged o £1m. Bwriedir cario'r gwarged hwn ymlaen i 2014-15 i'w fuddsoddi i weddnewid y sefydliad.

6. Fel y nodwyd eisoes, mae effaith ariannol net *P.ramorum* yn y flwyddyn gyfredol wedi costio £1.7m. Heb y gost hon, byddai ein gwarged yn awr yn £2.7m.

7. Y diffyg yn y gyllideb agoriadol yn 2013-14 oedd £3.5m. Llwyddwyd i'w ostwng yn ystod y flwyddyn fel y gwelir yn Atodiad 1.

Perfformiad Ariannol yn Chwefror 2014

8. Ceir crynodeb o sefyllfa'r gyllideb yn Atodiad 2.

   Y prif bwyntiau yw:

   - Mae Perfformiad Ariannol yn awr yn cael ei fesur yn erbyn y dyraniad y gyllideb wedi'i ddiwygio a'r proffiliau a gymeradwywyd gan y Tîm Gweithredol ar 4 Chwefror 2014.

   - Mae gwariant hyd ddiwedd Chwefror yn £162.9m o'i gymharu â tharged o £167.9m, tanwariant o £5.0m (3%). Y prif reswm am yr amrywiad yw tanwariant o £2.1m (10.9%) mewn Prosiectau Refeniw a thanwariant £2.4m (9.5%) mewn Prosiectau Cyfalaf.

- Incwm (ac eithrio Cymorth Grant) o fewn y targed ag incwm gwirioneddol o £61.1m o'i gymharu â tharged o £61.3m, amrywiad o £0.2m (0.4%).

- Roedd y perfformiad o ran taliadau yn 96% ym mis Chwefror gyda 96% o anfonebau wedi'u talu o fewn 30 diwrnod.

Sefyllfa'r Gyllideb ar ddiwedd 2013-14

9. Rydym yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru ar geisiadau am Gymorth Grant ychwanegol i ariannu buddsoddiad mewn TGCh a *P.ramorum*.

10. Rydym wedi cyflwyno cais ychwanegol i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i ddifrod y stormydd diweddar i ystâd ein coetiroedd a'r Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

11. Bydd Cyfarwyddiaethau yn monitro eu cyllidebau'n ofalus wrth i ddiwedd y flwyddyn ariannol nesáu, i sicrhau eu bod o fewn y targedau incwm a gwariant. Mae gwariant sylweddol o hyd yng Nghyfnod 2, ond cynlluniwyd ar ei gyfer.

Y Camau Nesaf

12. Mae Cyfarwyddiaethau, gyda chymorth Cyllid, yn monitro eu gwariant hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Risgiau

13. Cyrraedd ein targedau a chyflawni ein canlyniadau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yw ein prif flaenoriaeth o hyd.

Goblygiadau Ariannol

14. Mae'r papur wedi'i fwriadu i amlygu'r goblygiadau ariannol i Cyfoeth Naturiol Cymru am 2013-14.

Cyfathrebu

15. Mae cyfathrebu'r materion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn wedi'u cyfleu i'r Tîm Gweithredol yn ystod Chwefror, ac mewn mwy o fanylder i dimau unigol y Cyfarwyddiaethau.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

16. Amherthnasol.

Atodiad
Atodiad 1 – Trywydd Archwilio Diffyg / (Gwarged) y Gyllideb
Atodiad 2 – Crynodeb o'r Perfformiad